Efallai yr hoffech chi ofyn rhai cwestiynau...

Alla'i ddim cael teledu digidol trwy erial ar hyn o bryd. Fydda i'n medru gwneud hynny ar ôl newid i ddigidol?

Un o'r prif resymau dros newid i ddigidol ydy gwneud yn siwr y bydd y rhan fwyaf o gartrefi yn medru dewis sut i gael teledu digidol. Ar ôl newid i ddigidol, dylai o leiaf 98.5% o gartrefi allu derbyn gwasanaethau teledu digidol trwy erial, yn rhad ac am ddim.

Fydda' i angen erial newydd?

Fydd y rhan fwyaf o gartrefi ddim. Os byddwch chi'n dewis cael teledu digidol trwy erial, ond yn cael problemau gyda derbyniad er eich bod mewn ardal sy'n derbyn digidol ar hyn o bryd (i ddarganfod mwy am hyn, ewch i dudalen 4), bydd angen i chi edrych a ydy'ch erial presennol yn addas. Holwch eich gosodwr erial lleol – chwiliwch am osodwr sy'n perthyn i'r 'Confederation of Aerial Industries' neu, o 2006 ymlaen, gosodwr fydd yn cario Marc Ardystio y newid i ddigidol.

Marc Ardystio

digidol

Chwiliwch am y logo...

Mae 3 set deledu yn fy nhŷ i. Oes angen trosi pob un?

Bydd angen i chi sicrhau bod pob set deledu yn eich cartref yr ydych yn dymuno eu defnyddio i wylio darllediadau teledu, yn gallu cael teledu digidol. Ni fydd angen i newid unrhyw set y byddwch yn ei defnyddio'n unig ar gyfer gwylio tapiau neu DVD neu i chwarae gemau arni.

Dwi'n byw mewn fflat ac yn rhannu fy erial gyda phobl eraill. Beth sydd angen i mi ei wneud?

Os ydych yn rhannu'ch erial gyda phobl eraill, efallai bod system deledu gyfunol gennych chi. Os oes, bydd angen addasu hon er mwyn derbyn teledu digidol. Dylai'ch landlord neu'ch asiant rheoli fod yn gwybod am hyn ac yn cynllunio ar ei gyfer – gofynnwch iddyn nhw am fwy o wybodaeth.

Fydda' i'n dal angen trwydded deledu ar ôl y newid i ddigidol?

Os oes angen trwydded deledu arnoch chi ar hyn o bryd, byddwch chi angen un ar ôl y newid i ddigidol.

Am fwy o wybodaeth

Mae Marc Ardystio y newid i ddigidol (y "tic digidol") yn ardystio gwybodaeth, nwyddau a gwasanaethau sydd wedi eu cynllunio i'ch helpu trwy'r newid i ddigidol. Edrychwch am y marc pan fyddwch yn cael offer teledu digidol a gwasanaethau cysylltiedig. Ar ôl 2006, bydd gosodwyr erialau sydd wedi cwblhau hyfforddiant diwydiannol ar lefel uchel, yn cael eu hardystio i ddefnyddio logo y "tic digidol".

Mae'r manylion am safleoedd gwerthu a chynhyrchion sy'n medru defnyddio'r marc hwn i'w cael ar www.digitaltelevision.gov.uk

digidol

Gallwch gael gwybodaeth gan Digital UK neu'r Llywodraeth ar y Rhyngrwyd

www.digitaluk.co.uk
www.digitaltelevision.gov.uk

Neu gallwch ffonio llinell wybodaeth Digital UK sef **0845 6 50 50 50**

Gallwn ddarparu dogfennau fydd yn cwrdd â gofynion penodol pobl sydd ag anableddau. Cysylltwch â **publications@digitaluk.co.uk**

I'r rheiny fydd angen help ychwanegol

Er mwyn gwneud yn siwr bod pawb yn medru manteisio ar deledu digidol, bydd y rheiny fydd ei angen fwyaf yn cael help i fynd drwy'r broses.

Bydd y cynllun cymorth yn cyflenwi'r offer i drosi un set deledu, help i'w osod a chymorth pellach i bobl 75 oed neu'n hŷn a phobl sydd ag anableddau sylweddol (sy'n cael y lwfans gweini neu'r lwfans byw i'r anabl).

Fydd dim rhaid i'r cartrefi tlotaf sydd â'r hawl i'r help hwn dalu amdano, e.e. y rhai sy'n cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu'r Credyd Pensiwn. Efallai y bydd rhaid i gartrefi eraill dalu ffi cymharol fach am yr help hwn.

Os oes hawl gennych chi i gael help, byddwch chi'n derbyn mwy o wybodaeth ymhell cyn i'ch ardal chi droi'n ddigidol i gyd.

Darparwyr gwasanaeth teledu digidol

Mae mwy o wybodaeth am wasanaethau teledu digidol penodol ar gael gan y rhai sydd yn darparu'r gwasanaethau. Byddant hefyd yn gallu rhoi cyngor i chi am unrhyw help fyddwch chi ei angen i osod yr offer.

Teledu digidol trwy erial – gwasanaeth fydd yn cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim gan Freeview, gyda gwasanaethau tanysgrifio ychwanegol gan Top Up TV

Freeview 08708 809980 www.freeview.co.uk
Top Up TV 08700 543210 www.topuptv.com

Teledu digidol trwy loeren – mae sianeli tanysgrifio neu sianeli fydd yn cael eu darlledu yn rhad ac am ddim ar gael gan Sky

Sky 08702 403481 www.sky.com
Freesat gan Sky 08706 061111

Teledu digidol trwy gebl – gwasanaethau tanysgrifio wedi eu darparu gan ntl, Telewest Broadband a WightCable (WightCable IOW a WightCable North)

ntl 0800 052 4000 www.ntl.com
Telewest Broadband 0800 953 5353 www.telewest.co.uk
WightCable 08000 706150 www.wightcable.com www.wightcablenorth.com

Teledu digidol trwy linell ffôn (band llydan / DSL) – gwasanaethau tanysgrifio wedi eu darparu gan Kingston Communications (KIT) a Homechoice – dim ond rhai ardaloedd sydd yn medru derbyn y rhain ar hyn o bryd.

KIT 01482 222666 www.kcom.com
Homechoice 0800 092 4444 www.homechoice.co.uk

Nid yw'r holl wasanaethau ar gael ym mhob ardal.

Mae logo'r newid i ddigidol yn Farc Ardystio.
www.digitaltelevision.gov.uk

Cynhyrchwyd y daflen hon gan y Llywodraeth a Digital UK. Sefydlwyd Digital UK gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU a'r gweithredwyr plethiad digidol daearol. Bydd Digital UK yn cysylltu gyda'r cyhoedd am y newid i ddigidol, er mwyn gwneud yn siwr bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd, beth sydd angen iddyn nhw ei wneud, a phryd.

Medi 2005

digidol byddwch yn barod

Mae teledu yn y DU yn mynd i droi'n ddigidol, gan gynnig gwasanaethau newydd a dewis gwell i bawb. **Ffeindiwch allan pam, a beth mae'n olygu i chi.**

Beth ydy newid i ddigidol?

Mae teledu yn mynd yn ddigidol i gyd. 'Newid i ddigidol' ydy'r enw am switsio'r Deyrnas Unedig i deledu digidol yn unig. Dyma'r newid mwyaf yn hanes darlledu ers cael teledu lliw yn 1967.

Bydd y broses yma'n digwydd yn eich ardal chi rywbryd rhwng 2008 a 2012. Bydd yn digwydd fesul rhanbarth ITV, gan ddibynnu ar ble rydych chi'n byw. Digon o amser felly i ni i gyd fod yn barod am ddigidol.

Pam mae hyn yn digwydd?

Mae oddeutu 63% o gartrefi'r DU yn derbyn teledu digidol yn barod.

Ond mae'r Llywodraeth eisiau i bawb fwynhau manteision teledu digidol. Yr allwedd i hyn ydy gwneud yn siŵr bod pawb yn cael mwy o ddewis o opsiynau teledu digidol y gallan nhw eu fforddio.

Heddiw mae 1 o bob 4 o gartrefi yn y DU yn methu derbyn pob gwasanaeth sydd ar gael yn rhad ac am ddim trwy erial, a mae 1 o bob 5 o gartrefi'r DU yn methu cael Five trwy erial. Dim ond trwy broses o newid i ddigidol y bydd hi'n bosib i fwy o gartrefi yn y DU gael y gwasanaethau hyn. Felly bydd newid i ddigidol yn rhoi mwy o chwarae teg i bawb.

Bydd newid i ddigidol yn rhyddhau sbectrwm ellir ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau newydd fel teledu diffiniad uchel (HDTV) a darlledu rhaglenni i ffonau symudol.

Bydd newid i ddigidol hefyd yn helpu'r DU i barhau i arwain y byd ym maes darlledu. Bydd yn gwneud yn siŵr y bydd yr hen rwydwaith darlledu daearol yn cael ei ddisodli gan y dechnoleg newydd orau sydd ar gael, sef digidol.

Pryd fydd hyn yn digwydd yn fy ardal i?

Bydd y broses o newid i ddigidol yn digwydd rhwng 2008 a 2012, fesul rhanbarth ITV.

Mae'r map isod yn dweud wrthych ym mha flwyddyn y bydd teledu yn eich rhanbarth chi'n mynd yn ddigidol i gyd.

Yn nes at yr amser, byddwch chi'n cael gwybod gan Digital UK beth sy'n digwydd yn eich ardal chi a beth sydd angen i chi ei wneud. Bydd yna negeseuon yn ymddangos ar eich sgrîn deledu hefyd.

Fesul rhanbarth:

2008 Border
2009 Westcountry, Cymru, Granada
2010 West, Grampian, Scottish
2011 Central, Yorkshire, Anglia
2012 Meridian, Llundain, Tyne Tees, Ulster



Digital UK yw'r corff annibynnol "nid am elw" sy'n cydlynu'r newid i deledu digidol yn y DU.

Beth fyddwch chi'n cael ar deledu digidol

Pan fyddwch chi'n cael teledu digidol, byddwch yn dal i gael y sianeli a'r gwasanaethau sydd ar gael i chi heddiw*.

Gan ddibynnu ar sut y byddwch chi'n dewis cael teledu digidol, gallwch dderbyn llawer mwy o sianeli a gwasanaethau safonol heb dalu mwy:

Rhestrau rhaglenni ar-sgrîn a gwasanaethau rhyngweithiol (yn aml trwy'r "botwm coch")

Gwasanaethau radio

Isdeitlo

Gan dibynnu ar ble rydych chi'n byw a sut y byddwch yn dewis cael teledu digidol, mae llawer mwy o sianeli teledu a radio ar gael trwy danysgrifio, gyda gwasanaethau fel ffilmiau, chwaraeon, rhaglenni dogfen a llawer llawer mwy...

I weld beth sydd ar gael yn eich ardal chi, ewch ar-lein i www.digitaluk.co.uk neu gofynnwch i'ch gwerthwr neu gyflenwr lleol.

*Nid yw rhai platfformau digidol yn cynnal teletestun ac isdeitlo ar hyn o bryd, er bod cynlluniau gan bob un i wneud hynny erbyn y newid i ddigidol.

Sut i newid i ddigidol

Yn gyntaf, mae angen i chi ddewis sut i gael eich signal teledu digidol

Mae yna sawl ffordd i chi gael signal teledu digidol –

1. **Trwy erial**
2. **Trwy loeren**
3. **Trwy gebl**
4. **Trwy linell ffôn**

Dydy pob opsiwn ddim ar gael ym mhob ardal. Dim ond ar ôl y newid i ddigidol y bydd rhai ardaloedd yn medru cael teledu digidol trwy erial. Os ydych am wybod mwy, ewch i www.digitaluk.co.uk, cysylltwch ag unrhyw un o'r cwmniau ar y rhestr ar gefn y daflen hon, neu gofynnwch i'ch gwerthwr neu gyflenwr lleol.

Wedyn mae angen i chi ddewis beth i'w wneud gyda'ch set deledu

Mae dau ddewis gennych chi:

1 Yn syml, trosi'r set sydd gennych chi'n barod.
Rydych yn gwneud hyn trwy blygio bocs digidol (fydd yn cael ei alw'n aml yn "focs pen set") i gefn eich set.

Gall mynd yn ddigidol fod yn hawdd a fforddiadwy – gydag opsiynau ar gael at boced pawb.

2 Manteisio ar y cyfle i brynu set deledu newydd
Gallwch chi brynu neu rentu set deledu sydd â bocs digidol oddi mewn iddi'n barod, fydd yn gadael i chi dderbyn y gwasanaethau teledu digidol trwy erial yn rhad ac am ddim. Mae set o'r fath yn cael ei galw'n aml yn "Deledu Integredig Digidol" neu iDTV. Ni fydd iDTV yn caniatáu i chi dderbyn teledu digidol trwy loeren, cebl neu drwy eich llinell ffôn heb offer ychwanegol.

Peidiwch ag anghofio eich peiriant fideo

Byddwch yn gallu defnyddio'r peiriant fideo sydd gennych ar hyn o bryd, ond os byddwch chi eisiau recordio un rhaglen tra'n gwylio un arall bydd angen peiriant recordio digidol arnoch chi.

Mae mwy o beiriannau recordio digidol newydd ar gael o hyd. Maent yn aml yn cael eu galw'n "Beiriant Fideo Personol" neu PVR. Gofynnwch i'ch gwerthwr lleol am fwy o wybodaeth.